



ADRODDIAD

Arolwg Ymwelwyr Tymor Ysgwydd 2018

Cadw



Strategic Research and Insight Ltd
4 Park Court Mews
Plas y Parc
Caerdydd, Cymru
CF10 3DQ
Ffôn: ++44 (0)29 2030 3100

www.strategic-research.co.uk

Cynnwys Tudalen

1. Prif ganfyddiadau	3
2. Sut a pham y cynhaliwyd yr ymchwil hon?	4
3. Canlyniadau	5
4. Casgliadau	15

1. Prif ganfyddiadau

Ymwelwyr sy'n dod o ardaloedd ymhellach i ffwrdd

Mae'r arolwg hwn wedi gweld symudiad tuag at ymwelwyr tymor ysgwydd o'r tu allan i Gymru (67% – o'i gymharu â 57% y tro diwethaf). Fodd bynnag, cynhaliwyd cyfweiliadau tymor ysgwydd 2015 rhwng canol mis Chwefror a diwedd mis Mawrth, ond eleni cafodd yr arolwg ei gwblhau yn gynnar ym mis Ebrill o ganlyniad i dywydd gwael ym mis Mawrth.

Mae'r 67% o'r tu allan i Gymru wedi'u rhannu'n 54% o'r DU / 13% o dramor.

Mae grwpiau ABC1 yn dominyddu o hyd

Mae'r rhan fwyaf (81%) o ymwelwyr tymor ysgwydd yn dod o grwpiau ABC1 – yn debyg i'r arolwg tymor ysgwydd diwethaf yn 2015 (78%).

Proffil oedran

Mae proffil oedran y rhai a ymatebodd yn y tymor ysgwydd yn parhau i fod yn gymharol ifanc, gyda thua hanner (49%) yn y grŵp oedran 25 – 44.

Ysgogiad i ymweld

Mae tua thraean (31%) o ymatebwyr wedi cael eu denu i ymweld â safle Cadw oherwydd 'arddangosfa benodol' – cynnydd sylweddol o 5% yn 2015. Mae'r ateb hwn yn arbennig o uchel yng Nghastell Caernarfon (62% o ymatebwyr).

Prin y cafodd Caernarfon ei gynnwys yn sampl 2015 oherwydd y gwaith a oedd yn digwydd ar y pryd, felly efallai mai dyma'r rheswm am y gwahaniaeth yn y canlyniad penodol hwn.

Yn gyffredinol, mae diddordeb yn niwylliant/hanes Cymru fel ysgogiad i ymweld yn uwch ar gyfer safleoedd gogledd Cymru, yn enwedig yng Nghricieth (70% o ymatebwyr) a Chaernarfon (51%).

Yn rhai o safleoedd de Cymru, mae diddordeb yn niwylliant/hanes Cymru yn ymddangos yn llai cryf, yn enwedig yng Nghaerffili (13%).

Mae taflenni yn dal i fod o bwys

Dywed tua dau o bob pump (39%) eu bod nhw'n gwybod am yr atyniad gan eu bod yn byw yn yr ardal / bob amser wedi gwybod amdano, ac roedd tua un o bob pump (21%) wedi dod o hyd iddo drwy argymhelliad personol. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg iawn i arolwg 2015.

Dywed 9% eu bod nhw wedi cael gwybod o ganlyniad i daflen ynglŷn â'r atyniad. Mae hyn yn uwch na gwefan Cadw (5%) a'r cyfryngau cymdeithasol (2%) wedi'u cyfuno, sy'n dangos bod taflenni yn parhau i chwarae rôl bwysig o ran cynyddu ymwybyddiaeth er gwaethaf technoleg.

2. Sut a pham y cynhaliwyd yr ymchwil hon?

Llywio strategaeth farchnata

Roedd Cadw am gasglu tystiolaeth ynghylch demograffeg ymwelwyr er mwyn llywio strategaeth yn ôl segmentau'r farchnad yn y dyfodol. Y prif nod oedd dadansoddi patrymau yn y proffil ymwelwyr a chymharu'r rhain ag ymchwil y gorffennol. Roedd data allweddol ynghylch y ddemograffeg yn cynnwys oed, rhyw, statws teulu, grŵp economaidd-gymdeithasol, man preswyl ac ymddygiad.

Adeiladu ar ymchwil flaenorol

Cynhaliodd Cadw arolygon ymwelwyr yn nhymor ysgwydd a thymor yr haf 2015 hefyd. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud cymariaethau â'r ddau arolwg drwyddi draw, lle mae gwahaniaethau yn arwyddocaol.

Cyfweliadau wyneb yn wyneb

Gwnaethom gynnal 1,495 o gyfweliadau ar ddeg safle Cadw ym mis Mawrth 2018 ac yn gynnar ym mis Ebrill, gan ddefnyddio holiadur yn seiliedig ar arolygon blaenorol Cadw. Dangosir strwythur y sampl yn ôl safle isod:

Safle	Nifer y cyfweliadau
Castell Biwmares	114
Castell Caernarfon	212
Castell Caerffili	221
Castell Coch	137
Castell Cas-gwent	127
Castell Conwy	216
Castell Cricieth	120
Castell Harlech	106
Castell Rhaglan	125
Abaty Tyndyrn	117
Cyfanswm	1,495

Strwythur y dadansoddiad

Ar gyfer cwestiynau nad oes ganddynt lawer o opsiynau ymateb, mae'r siart yn dangos y dadansoddiad mewn atebion fesul safle.

Ar gyfer cwestiynau mwy cymhleth, y cyfan rydym yn ei wneud yw dangos y canlyniadau cyffredinol ar gyfer yr holl safleoedd gyda'i gilydd, oherwydd y byddai'r siart yn rhy llawn ac yn annealladwy pe baem yn gwneud dadansoddiad yn ôl safle.

Rydym wedi nodi unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y safleoedd yn y testun, ac rydym hefyd wedi paratoi set o groes-dablau ategol, lle y gellir gweld holl ganlyniadau'r cwestiynau sydd ag atebion mesuradwy fesul safle.

3. Canlyniadau


Demograffeg allweddol

Disgrifiad o'r ymatebydd	2018 (y tymor ysgwydd)	2015 (y tymor ysgwydd)	2015 (tymor yr haf)
Rhyw			
Gwryw	50%	49%	50%
Benyw	50%	51%	50%
Oedran			
16 – 19	1%	2%	
20 – 24	7%	5%	
25 – 34	23%	21%	<i>Ni ellir cymharu'r cwestiwn</i>
35 – 44	26%	26%	
45 – 54	17%	20%	
55 – 59	8%	8%	
60 – 64	7%	7%	
65+	11%	11%	
Grŵp economaidd-gymdeithasol			
AB	44%	36%	39%
C1	37%	42%	38%
C2	13%	14%	15%
DE	6%	8%	8%
Lle mae'n byw			
Cymru	33%	43%	25%
Gweddill y DU	54%	48%	56%
Tramor	13%	9%	19%
Ethnigrwydd			
Gwyn	95%	96%	96%
Arall	5%	4%	4%

Mae canrannau ar gyfer grwpiau economaidd-gymdeithasol ac oedran wedi cael eu hail sylfaenu er mwyn anwybyddu ymatebwyr sy'n gwrthod ateb

Ymwelwyr sy'n dod o ardaloedd ymhellach i ffwrdd nag yn yr arolwg tymor ysgwydd diwethaf

- 3.1 Un o nodweddion diffiniol ymwelwyr yn yr arolwg tymor ysgwydd blaenorol oedd eu bod yn llawer mwy tebygol o fod yn breswylwyr Cymru o'u cymharu â thymor yr haf.
- 3.2 Mae'r arolwg hwn wedi gweld symudiad at ymwelwyr tymor ysgwydd o'r tu allan i Gymru (67% – o'i gymharu â 57% y tro diwethaf). Fodd bynnag, dylid ystyried amseriad y cyfweiliadau. Cynhaliwyd cyfweiliadau tymor ysgwydd 2015 rhwng canol mis Chwefror a diwedd mis Mawrth, ond eleni cafodd yr arolwg ei gwblhau yn gynnar ym mis Ebrill o ganlyniad i dywydd gwael ym mis Mawrth.
- 3.3 Mae'r mapiau isod yn dangos o le mae ymwelwyr y DU ac o dramor yn dod.




- 3.4 Nid oes yr un rhan o Gymru a Lloegr heb ei chynrychioli'n dda gan bobl sy'n ymweld â safleoedd Cadw, ar wahân i ogledd-ddwyrain Lloegr, lle mae nifer yr ymwelwyr yn disgyn yn sydyn. Mae'n amlwg fod llai o ymwelwyr yn dod o'r Alban yn ystod y tymor ysgwydd.



3.5 Mae ymwelwyr o dramor yn cyfrif am 13% o broffil y tymor ysgwydd. Mae pob cyfandir wedi'i gynnwys, ac mae'r ymwelwyr pellaf yn dod o Seland Newydd a Hawaii (y marciwr ymhell i'r dde sy'n ymddangos fel ei fod yn y Môr Tawel).

Pellter a deithiwyd



Mae Conwy yn denu llawer o bobl sy'n teithio o bell

3.6 Teithiodd treian (33%) o ymwelwyr tymor ysgwydd Castell Conwy 50+ o filltiroedd i ddod yno – yn debyg iawn i dymor ysgwydd 2015.

Mae byw'n agos i ddinas fawr yn gallu dylanwadu ar bellteroedd teithio ar gyfer rhai safleoedd

3.7 Lleolir Castell Coch a Chastell Caerffili yn agos iawn i Gaerdydd, a gallai hyn esbonio pam mae cyfran uchel o'u hymwelwyr yn teithio deg milltir neu'n fwy i'w cyrraedd.


Newidiadau o ran canlyniadau Biwmares

3.8 Mae tua hanner (52%) o ymwelwyr tymor ysgwydd i Fiwmares yn teithio deg milltir neu'n llai – cynnydd sylweddol o 38% yn 2015.

Mae'r darlun llawn yn debyg i'r tro diwethaf

3.9 Ledled yr holl safleoedd i gyd, mae'r canlyniadau yn debyg i'r arolwg tymor ysgwydd yn 2015. Mae'r pellter canolrifol a deithiwyd yn parhau i fod tua 25 milltir.

Math o grŵp



Tebyg iawn i broffil 2015


- 3.10 Mae'r proffil grŵp yn debyg iawn i'r canlyniadau tymor ysgwydd yn 2015.
- 3.11 Mae teuluoedd sy'n ymweld yn parhau i fod yn llawer mwy tebygol o fod â phlant iau na phlant hŷn. Efallai bod hyn yn adlewyrchu apêl safleoedd Cadw, neu gallai adlewyrchu'r tebygolrwydd is y bydd plant yn eu harddegau yn dal am fynd ar deithiau yng nghwmni eu rhieni.

Rhai newidiadau i'r proffil yn ôl safle

- 3.12 Mae gan Gastell Rhaglan y gyfran uchaf o bell ffordd (54%)¹ o deuluoedd â phlant iau yn ei broffil. Mae hyn yn llawer uwch nag a oedd yn 2015 (25%).
- 3.13 I'r gwrthwyneb, mae Castell Conwy wedi gweld symudiad o deuluoedd ifanc i gyplau. Mae tua hanner (43%) o ymwelwyr tymor ysgwydd Castell Conwy yn gyplau, o'i gymharu â 29% yn 2015. Ond mae cyfran y teuluoedd sydd â phlant ifanc wedi gostwng o 45% (sef yr uchaf o unrhyw safle) i 25%.

¹ Cafwyd y ffigur hwn trwy ychwanegu'r teuluoedd gyda phlant iau (48%) a'r teuluoedd gyda phlant iau a phlant hŷn (6%).


Pobl sy'n ymweld ag atyniadau hanesyddol eraill



Misoedd y gaeaf yn dod i ben

- 3.14 Fel yr oedd yn wir yn 2015, roedd cyfran fawr (51%) o'r ymatebwyr a gyfwelwyd yn ymweld â'u hatyniad hanesyddol cyntaf ers dros dri mis.
- 3.15 Mae niferoedd y bobl sy'n ymweld ag atyniadau hanesyddol yn is ar y cyfan yn ystod misoedd y gaeaf, ac felly, i lawer ohonynt, efallai mai'r ymweliad hwn oedd dechrau eu 'tymor atyniadau hanesyddol'. Byddai'n ddiddorol gofyn y cwestiwn hwn mewn arolwg yr haf er mwyn cymharu.

Dylanwadau ar y penderfyniad i ymweld




Arddangosfeydd - cynnydd sylweddol o ran ffocws

- 3.16 Roedd yr ysgogiad i ymweld bron yr un peth ag yn 2015, ar wahân i'r opsiwn 'roeddwn i am weld arddangosfa arbennig', sydd wedi cynyddu'n sylweddol o 5% o'r ymatebion i 31%. Mae'r ymateb hwn yn arbennig o uchel yng Nghastell Caernarfon (62% o ymatebwyr).
- 3.17 Prin y cafodd Caernarfon ei gynnwys yn sampl 2015 oherwydd y gwaith a oedd yn digwydd ar y pryd, felly efallai mai dyma'r rheswm am y gwahaniaeth yn y canlyniad penodol hwn.


Diddordeb yn niwylliant/hanes Cymru yn uwch yng ngogledd Cymru

- 3.18 Yn gyffredinol, mae diddordeb yn niwylliant/hanes Cymru fel ysgogiad i ymweld yn uwch ar gyfer safleoedd gogledd Cymru, yn enwedig yng Nghricieth (70% o ymatebwyr) a Chaernarfon (51%). Mae Cricieth yn denu cyfran uchel o'i ymwelwyr yn lleol, ac efallai mai dyma'r rheswm am y canlyniad.
- 3.19 Yn rhai o safleoedd de Cymru, mae diddordeb yn niwylliant/hanes Cymru yn ymddangos yn llai cryf, yn enwedig yng Nghaerffili (13%).



Rhai amrywiaethau yn y canlyniadau yn ôl safle

- 3.20 Fel yn 2015, ar ôl ystyried y ffactorau i gyd, y ffactor dylanwadol pwysicaf o ran y penderfyniad i ymweld â safle oedd 'diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol' (sef 37% o ymatebwyr). Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y bobl a ymwelodd ag Abaty Tyndyrn (67%).
- 3.21 Yng Nghastell Caerffili a Chastell Coch, lle mae llawer o ymwelwyr wedi teithio'n llai na deg milltir, mae mwy o ymdeimlad fod ymwelwyr yn chwilio am rywbeth i'w wneud am ddiwrnod allan. Mae tua thraean (31%) o'r bobl sy'n ymweld â Chastell Caerffili wedi dod yno am ddigwyddiad arbennig (llawer uwch na safleoedd eraill), ac mae gan Gastell Coch y gyfran uchaf (11%) o ymwelwyr a ddywedodd fod eu plant am ddod o'i gymharu â safleoedd eraill.



Canlyniadau tebyg i 2015

3.22 Fel yn 2015, mae ymwybyddiaeth yn dod o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r ddwy ffynhonnell uchaf o ymwybyddiaeth yn parhau fel o'r blaen – 'byw yn yr ardal / wedi bod yn ymwybodol ohono bob amser' (39%) ac 'argymhelliad personol' (21%). O bryd i'w gilydd, mae'n anodd i ymatebwyr nodi'n union mewn arolwg pryd y gwnaethant gael gwybod am atyniad am y tro cyntaf.

3.23 Ymhlith y ffynonellau ymwybyddiaeth mwy penodol a roddwyd, mae ffynonellau ar-lein ac all-lein wedi chwarae rôl wrth godi ymwybyddiaeth. Dyma'r safleoedd lle mae gwefan Cadw wedi codi ymwybyddiaeth fwyaf:

- Castell Caerffili (8% o ymatebwyr)
- Castell Coch (7%)
- Castell Cas-gwent (7%)

3.24 Mae'r safleoedd lle mae cyfrngau cymdeithasol Cadw wedi codi'r ymwybyddiaeth fwyaf fel a ganlyn:

- Castell Conwy (4%)
- Castell Caerffili (3%)
- Castell Coch (3%)

3.25 Mae'r safleoedd lle mae taflenni Cadw wedi codi'r ymwybyddiaeth fwyaf fel a ganlyn:

- Castell Harlech (17%)
- Castell Coch (16%)

4. Casgliadau

Gwahaniaethau rhwng y proffiliau tymhorol

Er bod rhai gwahaniaethau i arolwg tymor ysgwydd 2015 (efallai o ganlyniad i gyfweiliadau ychydig yn hwyrach), mae proffil y tymor ysgwydd yn parhau i ganolbwyntio mwy ar Gymru a theuluoedd iau o'i gymharu â phroffil yr haf.

Mae ein harolygon blaenorol yn ystod cyfnodau llai prysur ar gyfer Croeso Cymru wedi dangos bod angen i deuluoedd lleol sydd â phlant ifanc fynd allan o'u cartrefi a gwneud rhywbeth, hyd yn oed pan nad yw'r tywydd yn dda. Mae'r rhai sy'n ymweld yn ystod yr haf yn fwy tebygol o deithio o ardaloedd pellach ac mae'n bosibl eu bod ar wyliau yn yr ardal.

Mae grwpiau ABC1 yn dominyddu o hyd

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymweld â safleoedd Cadw yn rhan o grwpiau ABC1. Os yw Cadw yn dymuno i hyn barhau, dylid addasu negeseuon marchnata ar gyfer y dosbarth cymdeithasol hwn, gan ddefnyddio sianeli sy'n cael eu defnyddio ganddo.

Diwylliant Cymru yng ngogledd Cymru

Mae'r ysgogiad i ymweld â safleoedd Cadw yn wahanol yng ngogledd Cymru o'i gymharu â rhai safleoedd yn ne Cymru. Mae mwy o ddiddordeb gan bobl sy'n ymweld â safleoedd yng ngogledd Cymru yn niwylliant/hanes Cymru ac felly dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y wybodaeth a roddir iddynt.

Mewn cymhariaeth â hyn, ymddengys fod y bobl sy'n ymweld â Chastell Caerffili a Chastell Coch yn ymddiddori llai yn agweddau 'Cymreig' y cynnig, ac efallai bod ymdeimlad eu bod yn chwilio am rywbeth i'w wneud. O ganlyniad, efallai y bydd digwyddiadau arbennig yn fwy effeithiol o ran cynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â'r ddau safle hyn.

Mae tafleni yn dal i fod o bwys

Mae'r ymwybyddiaeth a godir gan daflenni yn uwch nag a geir gan wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Cadw gyda'i gilydd. Er eu bod yn costio llawer mwy i'w cynhyrchu, mae'n ymddangos fel eu bod yn parhau i fod yn effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth a denu ymwelwyr.

Cwestiwn ar gyfer arolwg yr haf

Efallai y bydd yn well cynnwys y cwestiwn (C10) ynglŷn ag ymweliadau diweddar â safleoedd hanesyddol eraill mewn arolwg ar gyfer yr haf. Mae nifer y bobl sy'n ymweld ag atyniadau Cadw a rhai tebyg yn isel yn gyffredinol yn ystod misoedd y gaeaf, felly byddem yn canfod mwy am ymddygiad diweddar ymwelwyr yn ystod rhan fwy prysur y 'tymor atyniadau awyr agored'.